| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Cyfarfod: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad: | 23 Mawrth 2016 |
| Teitl yr adroddiad: | Grant Datblygu Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned – diweddariad |
| Adroddiad gan: | Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

## 1.0 Cefndir

1.1 Yn ystod 2013/14 fe ddyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid i Gynghorau Sir er mwyn iddynt gynnig grant o hyd at £500 yr un i gynghorau tref a chymuned, gan gynnwys y rhai hynny sydd â gwefan eisoes, i'w wario ar ddatblygu gwefannau.

1.2 Pwrpas y grant oedd cynorthwyo cynghorau tref a chymuned i baratoi ar gyfer y Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sy'n cynnwys darpariaethau lle byddai'n ofynnol i bob cyngor cymuned gyhoeddi gwybodaeth ar wefan.

1.3 Fe ddywedais wrth y Pwyllgor hwn ar 1 Hydref 2013 bod £20,000 o gyllid wedi ei ddyrannu tuag at gynorthwyo cynghorau tref a chymuned Ynys Môn i ddatblygu gwefannau a bod y dyraniad wrthi'n cael ei ddosbarthu i gynghorau cymuned. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor hwn ar 30 Ionawr, 26 Mawrth, 18 Mehefin ac 18 Medi a 2 Rhagfyr 2014.

## 2.0 Hawlio'r grant – y sefyllfa ddiweddaraf

2.1 Mae pob un ond dau gyngor bellach wedi hawlio'r grant datblygu gwefannau - Bodorgan a Llaneugrad.

2.2 Anogwyd y ddau gyngor uchod i hawlio'r grant ym mis Rhagfyr 2014, a hynny yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor hwn y Cyngor ar 2 Rhagfyr 2014 .

## 3.0 Presenoldeb ar y We

3.1 Yn unol â phenderfyniad Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 16 Medi 2015, gofynnwyd i glercod pob cyngor tref a chymuned gadarnhau os oedd eu cynghorau unigol wedi sefydlu gwefannau yn unol â gofynion y Ddeddf Llywodraeth leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013.

3.2 Hyd at Ionawr 2016, cafwyd 32 o ymatebion, fel yr amlinellir isod:

3.2.1 **Gwefannau mewn lle – 26**

Amlwch; Biwmares; Bodffordd; Bryngwran; Caergybi; Cwm Cadnant; Cylch-y-Garn; Llanbadrig; Llanddaniel Fab; Llanddona; Llanddyfnan; Llaneilian; Llanfachraeth; Llanfaelog; Llanfaethlu; Llanfairpwll; Llanfair yn Neubwll; Llangefni; Llangoed; Llanidan; Mechell, Penmynydd; Pentraeth; Porthaethwy; Trewalchmai; Y Fali.

3.2.2 **Wrthi'n datblygu gwefannau – 6**

Bodedern; Llanfair Mathafarn Eithaf; Llanfihangel Esceifiog; Llannerch-y-medd; Trearddur; Tref Alaw.

3.2.3 O'r 8 cyngor sydd heb roi diweddariad/cadarnhad, cawsom wybod yn ôl ym mis Medi 2014 fel a ganlyn:

2 gyngor ddim yn bwriadu sefydlu gwefannau - Bodorgan a Llaneugrad.

6 cyngor yn bwriadu datblygu gwefannau - Aberffraw; Llangristiolus; Moelfre; Rhoscolyn; Rhosybol; Rhosyr.

3.2.4 Cyflwynwyd adroddiad yn amlinellu'r wybodaeth uchod i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2016, pryd y penderfynwyd y dylai'r Swyddog Monitro ysgrifennu at Gynghorau Cymuned Bodorgan a Llaneugrad i'w hatgoffa am y gofynion ar gynghorau cymuned o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

## 4.0 Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa ddiweddaraf.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** **16 Mawrth 2016**